

Est • 2001

Torfaen Business Voice

Llais Busnes Torfaen

# Gwneud Cysylltiadau Gwych

## HYDREF 2022

**Digwyddiad Nesaf:**
**Tachwedd 10fed, 4:30pm**

http://bit.ly/twitter-TorfaenBizCymru http://bit.ly/Facebook-TorfaenBiz http://bit.ly/youtube-TorfaenBiz

**TUDALEN 3**

Llais Busnes Torfaen - pam ymuno?

**TUDALEN 4**

Addewid Twf Gwyrdd

**TUDALEN 7**

Sesiynau Galw Heibio Cyfnewid Prifysgol De Cymru

**TUDALEN 8**

Raglen Gwella Cynhyrchiant Torfaen


## DOD YN AELOD


**MEDI 2022**

| Su | Ll | Ma | Me | Ia | Gw | Sa |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
| 20 | 21 | 22 | 23 | 24 | 25 | 26 |
| 27 | 28 | 29 | 30 | | | |

**IONAWR 2023**

| Su | Ll | Ma | Me | Ia | Gw | Sa |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 |
| 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 | 21 |
| 22 | 23 | 24 | 25 | 26 | 27 | 28 |
| 29 | 30 | 31 | | | | |

**BWCIWCH EICH LLE AR GYFER EIN CYFARFOD MIS HYDREF YMA!**




# NODIADAU'R CADEIRYDD



**Ashley Harkus**

Cadeirydd, Llais Busnes Torfaen

Mae'n anodd credu ein bod ni'n nesáu'n barod at ein cyfarfod olaf yn 2022. Mae hi wedi bod yn hyfryd dod yn ôl at ein gilydd trwy gydol y flwydyn heb unrhyw amhariadau a chysylltu eto â phobl aelod.Yn y cyfarfod nesaf yma, byddwn yn gwneud y mwyaf o'n rhwydweithio wedi ei hwyluso. Mae'r rhai diwethaf wedi bod yn llwyddiant mawr, mae'n ymddangos, gyda'r ystafell yn llawn cyffro a phobl ddim bob amser yn awyddus i symud ymlaen at y bwrdd nesaf. Arwydd o gysylltiadau da. Ar ôl y rhwydweithio, gan y bydd hyn yn ddathliad Nadolig cynnar, byddwn yn cynnal cwis a fydd yn sir o fod yn ddiddorol, gyda swper cig rhost i ddilyn. Rydym am helpu cymaint o fusnesau lleol â phosibl i fynd yn ôl at rwydweithio, ac wrth gofio hyn rydym yn cynnig dau le i westeion aelodau ac mae yna leoedd blasu ar gael hefyd. Dewch i weld sut beth yw'r clwb, cefnogi'n gilydd, yn arbennig trwy'r amserau ansicr yma Trefnwyd ein noson recriwtio aelodau llwyddiannus ar gyfer **26ain Ionawr 2023, 4.30pm ym Mwyty Sglodion Page's, Cwmbrân** - cadwch y dyddiad yma er mwyn dechrau'r flwyddyn newydd gyda chysylltiadau lleol newydd.

## BYDDWCH YN RHAN O'R CLWB YN 2023!

## *Aelodaeth o £48 y flwyddyn am y buddion i gyd!*

**Beth sy'n rhan o'ch Aelodaeth Hollgynhwysol:**

- Lle yn ein cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein i gyd
- Cylchlythyr digidol chwarterol gydag erthyglau, cyngor a digwyddiadau busnes yn ogysytal â gwybodaeth wedi ei theilwra i fusnesau lleol Torfaen. Y Cylchlythyr diweddaraf
- Cyfleoedd amrywiol i rwydweithio
- Bwletinau trwy e-bost, gyda gwybodaeth berthnasol wedi'i chwynnu
- Rhag-rybyudd ynghylch cyfleoedd a digwyddiadau busnes eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, gan gynnwys brecwastau busnes, gweithdai a seminarau
- Hysbysebu manylion eich cwmni yn adran Aelodaeth Llais Busnes Gweler ein rhestr aelodau presennol yma.
- Cyfleoedd noddi a hysbysebu egsgliwsif i gwmnïau sy'n aelodau gyrraedd y farchnad busnes leol



Torfaen Business Voice

Llais Busnes Torfaen

Est • 2001

## PAM YMUNO?

Os ydych chi'n edrych am gysylltiadau newydd er mwyn ehangu nifer eich cwsmeriaid, Llais Busnes Torfaen yw'r clwb i chi.

Nid yn unig gallwch gael eich enw i mewn i'r gymuned ehangach ond gallwch hefyd gael hyd i eraill a fydd yn eich helpu i dyfu'ch busnes gyda'u cefnogaeth, cymorth a phrofiad.

## PWY ALL FYNYCHU?

Gall unrhyw fusnes fynychu a dod yn aelod, hyd yn oed os nad ydych chi wedi'ch lleoli yn ardal Torfaen. Does gan fusnesau ddim ffiniau, fel pam ddylai fod yna rhai gan y clwb?

Bydd ein cyfarfod rhwydweithio nesaf ar

**Ddydd Iau 10fed Tachwedd, 4.30pm yng Nghlwb Golff Greenmeadow, Cwmbrân.**

## CYFLEOEDD BLASU AR GAEL AM DDIM!

**Gan mai hwn fydd ein cyfarfod olaf yn 2022, rydym yn rhoi cyfle i unrhyw fusnes fynychu am ddim i weld yr hyn sydd gan y clwb i'w gynnig. Rydym yn hyderus y byddwch yn ei gael yn fuddiol ac y byddwch yn ymuno'r flwyddyn nesaf!**

## BETH GEWCH CHI AM YMAELODI?

Mae ein ffioedd aelodaeth yn fforddiadwy iawn o £48.00 am flwyddyn o aelodaeth heb unrhyw gostau cudd neu ychwanegol.

Fel aelod, mae hyn yn rhoi dau le i chi (beth am ddod â gwestai gyda chi?) yn ein digwyddiadau rhwydweithio chwarterol, gan gynnwys bwyd. Byddwch hefyd yn gallu mynychu ein noson recriwtio ar 26ain Ionawr gyda chinio pysgod a sglodion am ddim a rhwydweithio pan fyddwch yn ymuno am y flwyddyn.

Diddordeb?
E-bostiwch: **info@southwalesbusiness.co.uk**















# ADDEWID TWF GWYRDD




Mae'r Addewid Twf Gwyrdd yn helpu busnesau Cymru i gymryd camau gweithredol tuag at wella eu cynaliadwyedd, arddangos yr effaith gadarnhaol maent yn ei gael ar bobl a lleoedd o'u cwmpas, yn ogystal ag ymuno â chymuned gynyddol o sefydliadau blaengar sy'n helpu Cymru i bontio dyfodol carbon isel.

Mae'n cynnig ystod o weithredoedd syml ac ymarferol a all eu cymryd, fel lleihau defnydd o gerbyd, cynyddu effeithlonrwydd dr ac ynni, a gweithio gyda chyflenwyr cyfrifol a fydd yn helpu cwmnïau i ddod yn fwy effeithlon, datgarboneiddio ac ennill busnes newydd.

Drwy lofnodi'r Addewid Twf Gwyrdd, mae gofyn i'ch busnes ymrwymo i o leiaf un weithred gadarnhaol a fydd yn helpu i leihau eich ôl troed carbon a'ch effaith ar yr amgylchedd drwy sicrhau perfformiad cynaliadwy, gan gynnwys:

- Gweithio gyda chyflenwyr cyfrifol
- Logisteg a thrafnidiaeth effeithlon
- Defnyddio tir, ynni a dr yn ddoeth
- Mesur effeithiau eich busnes
- Gwella llesiant staff a'ch cymuned leol
- Defnyddio pecynnau addas
- Atal gwastraff a llygredd
- Adolygu cynnyrch a gwasanaethau
- Hyrwyddo arferion gorau cynaliadwy

## BYDD LLOFNODI'R ADDEWID TWF GWRDD YN HELPU EICH BUSNES I:

- Gynyddu ei siawns o ennill tendrau
- Cynyddu'r tebygolrwydd o sicrhau buddsoddiad
- Arbed arian yn hirdymor
- Dod yn fwy effeithlon a gwella ei wytnwch
- Gwella delwedd y brand ac ennill mantais gystadleuol
- Gosod arfer gorau i eraill ei ddilyn

Byddwch hefyd yn ymuno â chymuned gynyddol o dros 2,150 o fusnesau sydd wedi derbyn cymorth cynaliadwy gan Busnes Cymru, gan helpu Cymru i ddatgarboneiddio a phontio at ddyfodol carbon isel.

## CYMORTH BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru'n cynnig mynediad at wybodaeth, gweithdai, cyngor ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb yn rhithiol, yn ogystal â chymorth arbenigol. Mae gweminarau a gweithdai rhithiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd i helpu gydag ystod o faterion busnes gan gynnig mynediad at arbenigedd annibynnol a diduedd.

Drwy lofnodi'r Addewid Twf Gwyrdd, byddwch yn cael mynediad at becyn offer marchnata wedi'i ddylunio'n benodol i gynnig gwybodaeth ymarferol, canllawiau a logos i helpu eich busnes i hyrwyddo'r camau rydych wedi'u cymryd i ddatgarboneiddio a dod yn fwy cynaliadwy. **Cymryd Rhan**

# CYLLIDEB FACH 2022 – Y DIWEDDARAF

Ar 23 Medi, datgelodd y Canghellor, Kwasi Kwarteng, doriadau mewn trethi fel rhan o'i gyllideb fach a ddatgelwyd fel y Cynllun Twf. Arweiniodd y cythrwfl wedyn yn y marchnadoedd ariannol at weld y Llywodraeth yn gwneud nifer o droeon pedol, a Jeremy Hunt yn cymryd lle Kwarteng. Dyma grynodeb o'r hyn sy'n digwydd gyda phobl un o'r mesurau:

## TRETH INCWM

Yr hyn a gyhoeddwyd:

- Roedd y Llywodraeth yn mynd i dorri cyfradd sylfaenol y dreth incwm o 19% o Ebrill 2023.
- Roedd cyfradd uwch y dreth incwm o 45% ar gyfer enillion o £150,000 yn mynd i gael ei diddymu i drethdalwyr Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Yr hyn sydd wedi newid:

- Bydd cyfradd sylfaenol y dreth incwm yn aros yn 20%.
- Nid yw'r toriad yn mynd ymlaen bellach, a bydd y gyfradd uwch o 45% yn aros.

## TRETH GORFFORAETHOL

Yr hyn a gyhoeddwyd:

- Roedd y Canghellor wedi bwriadu dileu'r codiad yn y dreth gorfforaethol i 25% o Ebrill 2023.

Yr hyn sydd wedi newid:

- Bydd y codiad yn mynd yn ei flaen fel bwriadwyd, a bydd y dreth gorfforaethol yn cynyddu i 25% yn Ebrill 2023.

## IR35

Yr hyn a gyhoeddwyd:

- Roedd y Llywodraeth wedi addo newid IR35, fel nad oed cwmnïau'n gyfrifol bellach am sicrhau bod eu contractwyr yn talu'r swm cywir o dreth.

Yr hyn sydd wedi newid:

- Ni fydd y newid yn digwydd, a bydd y rheolau o gylch IR35 yn aros yr un fath.

## YSWIRIANT GWLADOL (YG)

Gydag effaith o 6 Tachwedd, mae'r Canghellor yn dileu'r cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau YG, a glustnodwyd ar gyfer yr Ardoll Gofal Cymdeithasol.

## LWFANS BUDDSODDIAD BLYNYDDOL

The £ 1 million allowance will remain permanent rather than returning to £200,000 in March 2023. This gives 100% tax relief to businesses on their plant and machinery investments up to the higher £1 million limit.



## TRETH STAMP/TRETH TRAFODIADAU TIR

Mae treth stamp wedi ei thorri i'r rheiny yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ni fydd angen talu treth stamp ar y £250,000 cyntaf, ac i'r rheiny sy'n prynu am y tro cyntaf, mae hynny'n codi i £425,000.

I'r rheiny yng Nghymru, mae'r trothwy cychwynnol ar gyfer talu'r prif gyfraddau preswyl o TTT yn codi o £180,000 i £225,000, a bydd y band treth cyntaf yn cynnwys trafodiadau o £225,000 i £400,000, gyda threth o 6% ar y swm uwchben £225,000.

## CYNLLUN EGIN FUDDSODDIAD (SEIS)

Bydd cwmnïau newydd nawr yn gallu codi hyd at £250,000, gan roi gostyngiad yn y dreth i fuddsoddwyr. Bydd newidiadau pellach i'r polisi cyllidol yn cael eu cyhoeddi ar 31 Hydref fel rhan o Gyllideb yr Hydref.

Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau yngln â sut bydd y newidiadau yma'n effeithio arnoch chi, cysylltwch yn ddi-oed â Green & Co, Cyfrifwyr a Chynghorwyr Treth trwy **01633 871122.**

# MAE'R GRANT GWYDNWCH YNNI

**Mae'r Grant Gwydnwch Ynni** wedi ei lansio i helpu busnesau i ail-fuddsoddi mewn offer a'u hadeiladau a lleihau eu defnydd o ynni.

Mae'r grant ar gael i weithgynhyrchwyr sy'n cyflogi rhwng 10 a 100 o bobl (gan gynnwys busnesau partneriaeth a pherchnogaeth gorfforaethol) yn ardaloedd awdurdodau unedol Blaenau Gwent, Penybont-ar-Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.

Mwyafswm y dyraniad yw £25,000 neu 70% o gostau cymwys, pa un bynnag sydd isaf. Gall gwariant cymwys gynnwys ynni adnewyddol, bwyleri, peiriannau a gyriannau a chyflenwadau ynni di-dor ymhlith eraill.
Am restr fanylach, **ewch i.**

Dylai busnesau sydd â diddordeb gysylltu â **Busnes Cymru** yn y lle cyntaf i drefnu ymgynghoriad â **Chynghorydd Effeithlonrwydd Adnoddau** i drafod dewisiadau posibl.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# DELIO GYDA CHWYNION DIOGELU DATA I FUSNESAU BACH



Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi cyhoeddi deunydd newydd ar ei **Hwb BBaCh** a hynny yngln a chwynion diogelu data, yn cynnwys canllawiau ar chwe cham allweddol i'w dilyn os ydych chi'n destun cwyn.

Hyd yn oed gyda pholisïau diogelu data priodol ar waith, weithiau bydd eich staff, contractwyr, cwsmeriaid neu eraill y mae eu data gennych, yn anhapus â sut rydych chi wedi ymdrin â'u gwybodaeth bersonol. Mae eich ymateb yn bwysig, oherwydd bydd cymryd y camau cywir yn helpu i amddiffyn eich enw da fel busnes sy'n gofalu am wybodaeth pobl. Bydd hyn hefyd yn eich helpu i ddarparu gwasanaeth gwell i'ch cwsmeriaid.

Ysgrifennwyd y canllaw hwn i helpu busnesau bach i ddelio â chynion sy'n ymwneud â'r ffordd y maen nhw wedi defnyddio gwybodaeth pobl. Os ydych chi'n elusen fach, grp neu glwb bach, neu fudiad bach, mi fydd hefyd yn ddefnyddiol i chi. I gael mwy o wybodaeth ewch i

**Sut i ddelio â chynion ynghylch diogelu data yr ydych yn derbyn fel busnes bach | SCG**

ico.
Information Commissioner's Office

# OES ANGEN I'CH STAFF UWCHSGILIO?



Mae cyrsiau dysgu hyblyg Dysgu Oedolion yn y Gymuned Torfaen yn ffordd newydd i'ch gweithwyr ddysgu sgiliau newydd. Dewiswch o amrywiaeth eang o bynciau i wella'ch sgiliau gwaith neu ddatblygu eich sgiliau personol a gwybodaeth broffesiynol.

Mae dysgu hyblyg yn berffaith os na allwch chi ymrwymo i ddosbarth pob wythnos ond eich bod yn hoffi'r syniad o ddysgu sgil newydd, yn eich cartref eich hun. Mae costau a hyd y cyrsiau'n amrywio o gwrs i gwrs. Gellir lawr lwytho tystysgrif hyfforddiant ar ôl cwblhau cwrs. I weld rhestr lawn o'r cyrsiau sydd ar gael, ewch at eich **gwefan**.

Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru, ffoniwch **01633 647647** neu e-bostiwch: **power.station@torfaen.gov.uk**




# SESIYNAU GALW HEIBIO CYFNEWID PRIFYSGOL DE CYMRU

**Yng Nghanolfan Arloesi Busnes Springboard Cymru ar 30ain Tachwedd – 10am – 2pm (apwyntiad 45-munud)**

Mewn partneriaeth â Chanolfan Arloesi Busnes Springboard, bydd Cyfnewidfa PDC yn cynnig cyfle i fusnesau alw i mewn a darganfod sut gallwn gryfhau eich busnes, trwy ein gallu i hwyluso'r cysylltiadau cywir i'r ystod eang o arbenigedd rydym yn ei gynnig yn PDC.

P'un a oes gennych her weithredol ar unwaith; gan edrych i gynllunio strategaeth twf busnes newydd neu chwilfrydig yn unig i ddarganfod pa gefnogaeth y gall PDC ei gynnig i'ch busnes, byddwn yn barod i wrando a chynorthwyo i wneud iddo ddigwydd.

Bydd yr apwyntiadau'n cael eu cynnal yn bersonol ond rhowch wybod i ni a fyddai'n well gennych opsiwn Teams rhithwir.
**Archebwch yma**



# MAE CYLLID AR GAEL O HYD AR GYFER BUSNESAU GWEITHGYNHYRCHU TORFAEN

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lansiwyd Rhaglen Gwella Cynhyrchedd Llywodraeth Cymru yn Nhorfaen ar ddiwedd 2019 ac mae wedi gweld llwyddiant eang i'n busnesau gweithgynhyrchu gyda mwy na £200K wedi ei ddyfarnu yn lleol yn 21/22 a £75K pellach wedi ei ddyfarnu hyd yma eleni.

Nod y rhaglen yw cynyddu effeithlonrwydd, datblygu cynhyrchion newydd ac ystyried marchnadoedd newydd o fewn y busnes. Bydd pob cyfranogwr yn y cynllun yn cael Rheolwr Perthynas Llywodraeth Cymru i helpu i arolygu cynhyrchedd a'u cefnogi drwy'r broses o wneud cais, gyda hyd at £25,000 ar gael i ymgeiswyr llwyddiannus.

Daeth amrywiaeth eang o fusnesau gweithgynhyrchu Torfaen yn ymwybodol o'r cyllid drwy ein digwyddiad rhithwir a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ac Economi a Mentergarwch Torfaen.

Rydym yn gobeithio y bydd ein Busnes Brecwast nesaf yn rhoi cyfle i fwy o gwmnïau ddysgu sut gallai'r rhaglen gymorth hon, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwariant cyfalaf mewn technoleg newydd, helpu i fynd â'u busnes i'r lefel nesaf. Os ydych chi'n meddwl y gallai eich busnes elwa o'r cyllid sydd ar gael ...

Bwciwch ar y digwyddiad isod neu cysylltwch gyda ni ar:
**info@southwalesbusiness.co.uk**

## RAGLEN GWELLA CYNHYRCHIANT TORFAEN

### Ydych chi am fod y nesaf i warchod eich busnes rhag y dyfodol?

***Gwahoddir chi i fynychu brecwast busnes ar: 23ain Tachwedd 2022 o 8:30am tan 10.00am Yng Nghanolfan Arloesi Busnes Springboard, Parc Llantarnam, Cwmbrân***

Gall y **Rhaglen Gwella Cynhyrchiant** eich helpu:

- Gwella Effeithlonrwydd
- Datblygu Cynhyrchion Newydd
- Edrych am farchnadoedd newydd

Bydd y Rhaglen yn cynnig **pecyn o gefnogaeth** o ariannu posibl ar gyfer gwariant cyfalaf mewn technolegau newydd.



**Mae'r rhaglen hon ar gael o hyd tan Fawrth 2023**
**Am ragor o wybodaeth cliciwch yma. Bwciwch eich lle yma.**